# Gwirfoddolwyr Archwilio Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

**Pwrpas y rôl:** Byddwch chi'n dod â'r Amgueddfa yn fyw i ymwelwyr o bob oed! Byddwch chi'n helpu ymwelwyr i drin a thrafod gwrthrychau o'r casgliadau, chwarae gemau a dod o hyd i'w ffordd o gwmpas. Er enghraifft, gallech chi fod yn helpu ymwelwyr i chwarae dominos yn Sefydliad y Gweithwyr Oakdale, neu ddangos y Welsh Not i ymwelwyr yn ein horielau.

**Lleoliad:** Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru **Adran:** Gwirfoddoli

**Oedran:** 14+ **Dyddiad Cau :** 16 Ionawr 2026

**Mae'r rôl yn addas i berson:**

- sy'n barod i dorchi llewys
- sy'n mwynhau helpu eraill i ddysgu am hanes
- sydd eisiau magu hyder wrth siarad â phobl ac ateb cwestiynau.

**Ystyriaethau:**

Bydd hyfforddiant ar gyfer y rôl ar y dyddiad isod:

**24 Ionawr, 10:00 – 14:00 : Diwrnod Hyfforddi Gwirfoddolwyr Archwilio:** Dyma sesiwn hyfforddi orfodol i bob gwirfoddolwr – yn ystod y diwrnod, byddwch chi'n cael gwybodaeth am y casgliadau, yr Amgueddfa a'r rôl.

Bydd diwrnodau hyfforddi eraill ar gael hefyd, er mwyn i chi ddysgu ragor am elfennau eraill o'r rôl, fel sut i ganu'r pianola. Byddwn ni'n cadarnhau dyddiad y sesiynau ychwanegol hyn yn ystod I diwrnod hyfforddiant

**Oriau ac Ymrwymiad:**

Bydd y rôl hon ar gael 7 diwrnod yr wythnos. Bydd slotiau yn y bore a phrynhawn. Gallwch chi ddewis pa mor aml yr hoffech chi wirfoddoli. Er enghraifft, gallech chi wneud bore bob wythnos, neu wirfoddoli yn ystod gwyliau ysgol yn unig.

**Diddordeb?** Cwblhewch y ffurflen gofrestru a'i hanfon at gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio 029 2057 3002.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn eich ateb yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

Rydym ni'n cynnig i wirfoddolwyr:
- treuliau teithio;
- gostyngiad yn ein siopau, caffis a'n arddangosfeydd;
- geirda ar gais;
- nifer o ddigwyddiadau dathlu a mynediad tu ôl i'r llenni, a
- chyfle i gyfarfod pobl newydd.

